



# Cynllun Pwnc leithoedd Tramor Modern

**Mawrth 2018**

**CYMRÆG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae [‘Tuag at 2020 a thu hwnt’](#) yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Pwnc Ieithoedd Tramor Modern yn gosod yr egwyddorion a'r nodau ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### Cyd-destun hanesyddol

O'r cychwyn, bu addysg uwch yng Nghymru yn rhoi lle blaenllaw i astudio ieithoedd. Cynigir graddau yn yr ieithoedd clasurol, yn ogystal â Ffrangeg, Almaeneg, Rwsieg, Eidaleg, Sbaeneg (gydag elfennau o Bortwgeeg a Chatalaneg) heb sôn am ieithoedd gwledydd Llychlyn.

Cadarnhaodd sefydliadau addysgol fel Gwasg Prifysgol Cymru, yr Academi Gymreig a phrosiectau fel Mercator werth medrusrwydd yn yr ieithoedd tramor wrth fuddsoddi mewn cyfieithiadau o weithiau mawr llenyddiaeth y byd.

Yn y 1980au, gwelwyd cyfuno astudio ieithoedd â phynciau eraill megis Peirianeg ac Astudiaethau Busnes, ac erbyn heddiw, gwelir parhad yn yr ymgais i gyfuno'r ieithoedd ag agweddau cynyddol amrywiol.

Bu cryn draddodiad o addysgu ieithoedd modern drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws prifysgolion Cymru dros y cyfnod diweddar. Serch hynny, y duedd oedd i'r ddarpariaeth hon ddibynnu i raddau helaeth ar nifer cymharol gyfyngedig o ddarlithwyr, ac roedd yr ieithoedd a'r modiwlau a gynigiwyd yn ddibynnol yn helaeth iawn ar arbenigeddau darlithwyr unigol a fedrai ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi'n sylweddol ym maes Ieithoedd Tramor Modern drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny drwy'r Cynllun Staffio (ac yn fwy diweddar grantiau pynciol), ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig, ynghyd â thrwy gyllido a chefnogi adnoddau, modiwlau a gweithgareddau cydweithredol. Cyhoeddwyd y [Cynllun Pwnc gwreiddiol](#) yn 2013 er mwyn ffurfioli'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o strategaeth i gynnal a datblygu'r maes ymhellach.

### Cyd-destun presennol y pwnc

Bu cwmp sylweddol yn y nifer o ddisgyblion sy'n astudio Ieithoedd Modern hyd at TGAU a Safon Uwch dros y blynyddoedd diweddar.<sup>1</sup>

Mae ffigyrau'r [JQC](#) yn dangos nid yn unig y gostyngiad yn y niferoedd, ond hefyd pa mor isel yw'r ganran o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU a Safon Uwch mewn Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg.

Mae hon yn broblem drwy'r Deyrnas Unedig, ond mae'n broblem sy'n arbennig o ddwys yng Nghymru.

Gyda'r Deyrnas Unedig ar drothwy gadael yr Undeb Ewropeaidd yn 2019, dylid dadlau'n gryf y bydd y galw am raddedigion sy'n gallu gweithio yn amlieithog yn cynyddu, ac felly bydd

<sup>1</sup> Rhwng 2002 a 2016, gwelwyd gostyngiad o 48% yn nifer y disgyblion sy'n astudio iaith dramor ar lefel TGAU, ac ers 2001, gwelwyd gostyngiad o 44% yn y nifer sy'n astudio ar lefel Safon Uwch ([Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/17](#), Y Cyngor Prydeinig).

cyfleoedd cyffrous iawn i'r sawl sy'n dewis y trywydd hwn, er gwaetha'r ansicrwydd presennol ynghylch 'Brexit'. Wrth gwrs, bydd y sefydliadau Ewropeaidd yn parhau i fodoli, felly bydd ieithoedd yn parhau'n gwbl angenrheidiol.

Mae gwaith ymchwil y Cyngor Prydeinig yn cynnig dau safbwynt gwahanol o ran sut mae disgyblion ysgol yn gweld pwysigrwydd ieithoedd yn sgil 'Brexit'.<sup>2</sup>

Mae'r Athro Claire Gorrara wedi ysgrifennu pennod 'Speaking from Wales: Building a Modern Languages Community in the Era of Brexit' yn llyfr yr Athro Emeritws Michael Kelly, *Languages after Brexit*.

Mae'r Athro Graham Donaldson yn nodi yn ei adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru, 'Dyfodol Llwyddiannus'<sup>3</sup>:

Mae'r cyfle i ddysgu nifer o ieithoedd yn neilltuol o bwysig yng Nghymru. Drwy ddysgu ieithoedd eraill, mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i ddiwylliannau eraill. Mae tystiolaeth hefyd fod dysgu iaith arall yn llwyddiannus yn gallu dylanwadu ar y capasiti i ddysgu ieithoedd ychwanegol a gall ddod â manteision gwybyddol ehangach.

Mae'r Athro Donaldson hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg:

Ym marn yr Adolygiad, bydd y gallu i ddysgu ieithoedd tramor modern yn cael ei hybu drwy ddatblygu'r Gymraeg yn gynharach, ac mae'n argymhell felly y bydd y drydedd a/neu bedwaredd iaith yn cael ei chyflwyno yn y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, neu'n gynharach lle y mae amser, amgylchiadau ac arbenigedd yn caniatáu.

Ceir tystiolaeth fod dysgu iaith newydd yn cyfrannu at ddatblygiad llythrennedd yn y famiaith, a dylid tynnu sylw at hynny wrth hyrwyddo'r maes Ieithoedd Tramor Modern.

Hyderir y bydd y newidiadau yng nghwricwlwm yr ysgol a'r sefyllfa wleidyddol a diwylliannol yn sgil Brexit yn gyfle o'r newydd i ddatblygu dinasyddion byd-eang sy'n dysgu am safbwyntiau rhyngwladol. Dylid adeiladu ar y cysyniad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn cyd-destun rhyngwladol.

Wrth hyrwyddo ieithoedd, dylai negeseuon gynnwys y ffaith bod astudio iaith/ieithoedd yn rhoi mantais i fyfyrwyr mewn meysydd eraill e.e. y Gyfraith, Peirianeg, Busnes a Marchnata.

Dylid sicrhau dilyniant rhwng y cwricwlwm ysgol newydd a chynnwys/natur y ddarpariaeth yn y brifysgol.

Ar hyn o bryd (2017/18), yr ieithoedd a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yw Ffrangeg a Sbaeneg (gweler tudalen 5 am sefyllfa'r Almaeneg ar hyn o bryd).

### **Proses**

Datblygir y broses o gynllunio pynciol i fod yn broses o edrych yn fwy cyflawn ar y pwnc dan sylw a chynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn gynhorthwy i sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gofynnwyd i brifysgolion gwblhau ffurflen cynllunio pynciol fel un cam yn y broses o lunio'r Cynllun Pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, niferoedd myfyrwyr a lefel staffio ym mlwyddyn academiaidd 2016/17. Mae'r targedau yn y cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau uchelgeisiol ond cyraeddadwy o ran datblygiad y maes drwy gyfrwng y Gymraeg.

<sup>2</sup> Tudalen 57 'Efaith Brexit' – Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/17, Y Cyngor Prydeinig.

<sup>3</sup> [Dyfodol Llwyddiannus](#) – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015).

Drafftwyd y Cynllun Pwnc gan swyddogion y Coleg Cymraeg, gyda chyfle i brifysgolion ymgynghori, cyn i Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg ei gymeradwyo'n ffurfiol.

### **Egwyddorion a Themâu**

Mae egwyddorion a themâu cyffredinol a osodwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol yn parhau'n weithredol tra bo'r cynllun newydd yn ystod y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf gyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Roedd datblygu darpariaeth gydweithredol yn greiddiol i'r cynllun pwnc gwreiddiol. Bydd y Coleg Cymraeg yn parhau i gefnogi gweithgareddau a darpariaeth gydweithredol, mewn egwyddor, os taw hynny yw dymuniad y sefydliadau a'u bod yn gweld y budd o wneud hynny. Mae'r Cynllun Academaidd yn nodi:

Nid yw'r Coleg yn ystyried bod darparu'n gydweithredol yn ddisgwyliad ymhob achos pan ddarperir cyllid gan y Coleg i gefnogi darpariaeth academaidd.

Dylai'r ffocws bob amser fod ar sicrhau'r profiad gorau posibl i'r myfyrwyr. Bydd gofyn i'r sefydliadau ddod i gytundeb ffurfiol ar y cydweithio, sy'n golygu bod yna ymrwymiad pendant a gweithdrefnau yn eu lle i ddelio â sefyllfaoedd a all godi. Mae'r Cynllun Academaidd yn nodi hefyd:

Bydd pob cynllun pynciol felly'n nodi'n glir addasrwydd a blaenoriaeth darpariaeth gydweithredol o fewn y pwnc penodol, a gall y pwyslais a roddir i weithgareddau cydweithredol amrywio'n fawr yn ôl cyd-destun y pwnc.

### **Strwythur y Cynllun**

Mae'r Cynllun Pwnc leithoedd Tramor Modern yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Ceir yma ystyriaeth lawnach o anghenion y gweithle. Rhwir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes leithoedd Tramor Modern.

Ystyrir bod rhai prifysgolion yn greiddiol i'r Cynllun Pwnc tra bod prifysgolion eraill yn dymuno cyfrannu ac elwa ar weithgareddau cydweithredol ond heb fod yn debygol o ddatblygu darpariaeth na sefydlu (na chwaith gynyddu) capasiti yn y maes penodol hwn.

O ran y Cynllun Pwnc leithoedd Tramor Modern, ystyrir bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor yn greiddiol.

Cyflwynodd Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Chaerdydd ffurflenni cynllunio pynciol i'r Coleg Cymraeg ym mis Gorffennaf 2017. Nododd Prifysgol Aberystwyth fod rhywfaint o ddarpariaeth ar gael ond nad oedd capasiti staffio. Ers hynny, nodwyd y bydd yn gynyddol anodd i Brifysgol Aberystwyth fod yn rhan o ddarpariaeth gydweithredol am amryw resymau, sy'n cynnwys rheoliadau mewnol parthed asesu ac ansawdd.

Nododd Prifysgol Caerdydd fod ganddi botensial am ddarpariaeth a chapasiti staffio, felly cânt eu cynnwys yn y cynllun. Mae modd astudio modiwlau yn y flwyddyn olaf yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn sgil newidiadau i'r cwricwlwm leithoedd Tramor Modern o fewn yr Ysgol leithoedd Modern yn gyffredinol, mae diddordeb mewn datblygu'r ddarpariaeth honno yn ystod y cyfnod nesaf o'r cynllun pwnc. Mae gan Brifysgol Caerdydd ddiddordeb mewn cyfrannu at weithgareddau cydweithredol fel y gwnaethpwyd yn y gorffennol e.e. darpariaeth gydweithredol, yr ysgol haf a digwyddiadau sy'n dwyn myfyrwyr ynghyd.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar categori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae

cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgolion Bangor a Phrifysgol Abertawe wedi ymrwmo i gyflawni meini prawf y Cynllun Academaidd mewn leithoedd Tramor Modern. Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

<b>Sefyllfa Gyfredol (yn seiliedig ar ddata 2016/17)</b>			
<b>Sefydliad Addysg Uwch</b>	<b>Darpariaeth</b>	<b>Staff</b>	<b>Myfyrwyr<sup>4</sup></b>
Prifysgol Abertawe	40 credyd ym mhob blwyddyn astudio mewn Sbaeneg a Ffrangeg	3 aelod o staff	21 o fyfyrwyr (israddedig) yn medru'r Gymraeg Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
Prifysgol Bangor	40 credyd ym mhob blwyddyn astudio mewn Almaeneg <sup>5</sup> a Ffrangeg	3 aelod o staff	24 o fyfyrwyr (israddedig) yn medru'r Gymraeg Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

<sup>4</sup> Gwybodaeth yn seiliedig ar y data a oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson â'r dull adrodd arferol i HESA.

<sup>5</sup> Nid oes darpariaeth yn 2017/18 oherwydd diffyg capasiti staffio. Gobeithir gallu cynnig Almaeneg eto yn 2018/19.

## Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

### Profiad Myfyrwyr

Mae pob sefydliad yn darparu cefnogaeth academaidd drwy Wasanaethau Myfyrwyr.

Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg yn agored i bob myfyriwr, os ydynt yn derbyn ysgoloriaeth ai peidio. Dylid cymryd cyfleoedd i bwysleisio gwerth cwblhau'r cymhwyster, a chyfeirio at y dystiolaeth anecdotaidd bod astudio leithoedd Tramor Modern yn helpu gydag hyfedredd yn y Gymraeg.

Ers 2013, bu'r Coleg Cymraeg yn cyllido Cwrs Preswyl i fyfyrwyr leithoedd Tramor Modern cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn gyfle i ddwyn ynghyd y myfyrwyr a'r darlithwyr er mwyn creu cymdeithas ac ennyn teimlad o berthyn. Nid yw'r Cwrs Preswyl wedi digwydd ers 2015 a dylid ystyried ailsefydlu grŵp Facebook (neu debyg) er mwyn meithrin perthynas cyn mynd ati i drefnu digwyddiadau cydweithredol. Bydd recriwtio cynrychiolwyr myfyrwyr i'r panel yn gam pwysig hefyd a dylid ymgynghori â hwy wrth ddatblygu syniadau. Gellid targedu digwyddiadau fel yr Eisteddfod Ryng-golegol, sydd eisoes yn dwyn myfyrwyr ynghyd.

Yn ystod eu blwyddyn dramor, gall myfyrwyr cael cymorth bugeiliol a thiwtorialau drwy gyfrwng y Gymraeg oddi wrth staff eu prifysgolion yng Nghymru dros e-bost, rhwydwaith fideo ac ati.

Mewn un sefydliad, mae'r myfyrwyr sy'n gweithio neu'n dysgu fel rhan o raglen y Cyngor Prydeinig yn cyflwyno portffolio blwyddyn dramor (cyfres o dasgau sy'n ymwneud â'u gwaith) ac yn cael adborth yn y Gymraeg, lle y bo hynny'n briodol. Mae'r modiwlau hyn gyfwerth â 15 credyd bob tymor, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y radd derfynol.

Mae myfyrwyr ym mhob sefydliad yn gweithio fel Llysgenhadon Iaith gyda chynllun Llwybrau at leithoedd. Mae lleoliadau dysgu a chynlluniau/modiwlau profiad gwaith ar gael ym mhob sefydliad.

Mae'r rhaglen 'Llwyddiant Academaidd' ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Gall y myfyrwyr elwa ar sesiynau gyda'r Cymrawd Llên Brenhinol.

Ym mhrifysgolion Bangor a Chaerdydd, mae myfyrwyr yn gweithio fel mentoriaid ar y Cynllun Mentora leithoedd Tramor Modern.

<p><b>Darlithwyr</b></p>	<p>Gall unrhyw un sy'n aelod o'r Coleg Cymraeg elwa ar y <a href="#">Cynllun Datblygu Staff</a>.</p> <p>Mae Panel Materion y Gymraeg, neu rywbeth tebyg i hynny, ym mhob sefydliad a dylid cymryd cyfleoedd i gyfrannu at y pwyllgorau hyn a bwydo nôl i'r panel fel bo'n briodol.</p> <p>Dylid ystyried cyfuno digwyddiadau ymchwil â chwrs preswyl i fyfyrwyr.</p> <p>Gellid ystyried y posibilrwydd o gydoruchwyllo myfyrwyr PhD e.e. ym maes Ieithoedd Tramor Modern a'r Gymraeg.</p> <p>Ym Mhrifysgol Abertawe, nodwyd bod y capasiti yn ddigonol ar gyfer y niferoedd myfyrwyr presennol, ond nid oes modd ehangu'r ddarpariaeth Sbaeneg. Gyda'r penodiad newydd, byddai'n bosib datblygu cyrsiau i ddechreuwyr mewn Eidaleg a Daneg er enghraifft, ond y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cynnal y ddarpariaeth yn y Ffrangeg yn bennaf.</p>
<p><b>Cwricwlwm</b></p>	<p>Mae'r modiwlau cydweithredol yn y maes e.e. Hanes a Diwylliant Ewropeaidd, Patagonia Gyfoes, Chwyldro Ffrengig ac Ymerodraeth Prydain a Ffrainc oll yn cynnwys elfennau ar genedlaetholdeb a phersbectif Cymreig.</p> <p>Nid yw'r modiwl Chwyldro Ffrengig yn rhedeg yn ei gyfanrwydd bellach yn sgil ymadawiad un o ddarlithwyr Prifysgol Abertawe. Nodwyd bod potensial i ddatblygu modiwl newydd yn seiliedig ar y prosiect ymchwil Teithwyr Ewropeaidd i Gymru.</p> <p>Ym Mhrifysgol Bangor, wrth osod darnau cyfieithu ayyb ar gyfer myfyrwyr iaith, gwneir ymdrech i ddarparu testunau sy'n ymwneud i ryw raddau â'r berthynas rhwng Cymru a Ffrainc, neu'n ymdrin â materion sy'n eu cysylltu mewn rhyw fodd neu'i gilydd, e.e. ieithoedd rhanbarthol.</p> <p>Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae modd gweithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn olaf ac mae modd dewis pwnc arbenigol yn y flwyddyn olaf sydd â chysylltiad Cymreig/dwyieithog neu amlieithog.</p>
<p><b>Canlyniadau Myfyrwyr</b></p>	<p>Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn tueddu i wneud yn well na myfyrwyr cyfrwng Saesneg.</p>



	<p>Cyfeirir eto at y ffaith fod safon Cymraeg y myfyrwyr yn gwella yn ystod eu cwrs.</p> <p>Awgrymwyd y dylid ystyried cyflwyno gwobr gan y Coleg Cymraeg yn y maes leithoedd Tramor Modern.</p> <p>Ym Mhrifysgol Bangor, mae nifer o'r myfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg ymysg y goreuon sy'n graddio bob blwyddyn. Cynigir gwobr flynyddol ym Mangor i fyfyrwr/myfyrwraig Ffrangeg cyfrwng Cymraeg.</p>
<p><b>Adnoddau</b></p>	<p>Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cyllido'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosiect 'Botwm y Byd' dan arweiniad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sy'n adnodd addysgol yn deillio o gyfres o ddarllediadau cyfoes a bywiog. Mae'n brosiect amlddisgyblaethol wedi ei anelu at fyfyrwyr leithoedd Modern a Gwleidyddiaeth. Llwyfannir yr adnodd ar &lt;<a href="http://www.botwm-y-byd.org/">http://www.botwm-y-byd.org/</a>&gt; ac erbyn hyn mae'r podlediadau hefyd ar gael ar <a href="#">Lyfrgell Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol</a>.</li> <li>• E-lyfr yr Athro Paul O'Leary "<a href="#">Ffrainc a Chymru 1830–1880: Dehongliadau Ffrengig o Genedl Ddiwladwriaeth</a>"</li> <li>• <u>Animo</u> – Cyllidwyd cam cyntaf y prosiect, sef gwaith addasu/cyfieithu y gwerslyfrau gwreiddiol, gan y Coleg Cymraeg. Mae angen diweddariad gan Wasg Gomer gan mai yn eu dwylo hwy y mae'r ffeiliau/proflenni.</li> <li>• Mae dwy aelod o adran ieithoedd Prifysgol Abertawe yn gweithio yn llaw-rydd ar gyfrannu at waith Canolfan Peniarth a Tinopolis ar adnoddau i ysgolion (Ffrangeg CA3, CA4 a CA5 a Sbaeneg CA5).</li> </ul> <p>Cafwyd trafodaeth yn y panel am yr angen am adnoddau i gefnogi'r maes. Gellid rhannu adnoddau yn dri chategori:</p> <p><u>1) Cefnogaeth ieithyddol</u> Y flaenoriaeth yw creu geiriaduron Ffrangeg/Sbaeneg/Almaeneg a Chymraeg ar-lein. Byddai hynny hefyd yn gam pwysig tuag at sicrhau cysondeb rhwng cynnwys yr adnoddau cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau cyfrwng Saesneg, yn ogystal â gwneud dysgu/astudio iaith dramor yn fwy gweladwy ar y we.</p> <p>Byddai llyfr gramadeg gydag ymarferion ac atebion (tebyg i <i>Action Grammaire!</i> ac <i>Acción Gramática!</i>) yn</p>

	<p>ddefnyddiol (gweler Animo uchod hefyd).</p> <p><u>2) Adnoddau 'cynnwys' e.e. llenyddiaeth, hanes</u> Byddai darpariaeth o erthyglau cyfoes yn y Gymraeg (ar bapur neu'n electronig) sy'n ymwneud â'r gwledydd lle y siaredir yr ieithoedd sy'n cael eu dysgu yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gwaith cyfieithu ayyb. Mae Golwg 360 yn ffynhonnell ddefnyddiol iawn, a byddai ehangu ar beth sydd ar gael yn well fyth.</p> <p><u>3) Adnoddau sy'n hyrwyddo'r maes leithoedd Tramor Modern</u> Mae angen sgopio pa adnoddau sy' n bodoli'n barod a sicrhau mynediad atynt e.e. dolen at ddeunyddiau <a href="#">Llwybrau at leithoedd</a> ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg Cymraeg.</p>
<p><b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys galw gan gyflogwyr)</b></p>	<p>Ceir tystiolaeth i gefnogi'r galw am raddedigion leithoedd Tramor Modern, gyda phwyslais ar amlieithrwydd.</p> <p>Yn ôl Gwefan Gyrfa Cymru:<sup>6</sup></p> <p>"Mae cael ail neu drydedd iaith yn amlwg yn eich gwneud yn gyfathrebydd da ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd astudio iaith hefyd yn rhoi sgiliau ychwanegol i chi, neu sgiliau cyflogadwyedd, sy'n werthfawr i gyflogwyr, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwybyddiaeth ddiwylliannol</li> <li>• Hunanreolaeth a gallu i gwrdd â therfynau amser</li> <li>• Addasrwydd a hyblygrwydd</li> <li>• Sgiliau ymchwil a chyflwyno</li> <li>• Gallu arwain trafodaethau, yn ogystal â gweithio mewn tîm</li> <li>• Mynegi barn a gallu awgrymu syniadau.</li> </ul> <p>"Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i bobl ifanc ddatblygu sgiliau ieithyddol a rhyng-ddiwylliannol a fydd yn helpu i'w datblygu'n broffesiynol ac yn bersonol, ac i gystadlu ar y llwyfan fyd-eang" (Yr Athro Claire Gorrara,</p>

<sup>6</sup> <https://www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/gyrfaoedd-mewn-ieithoedd-a-diwylliant/>

	<p>Prosiect MFL, 2016)</p> <p>“Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yw’r ieithoedd Ewropeaidd y mae cyflogwyr eu hangen fwyaf. Ffrangeg yw’r iaith fwyaf defnyddiol yn ôl 50% o gyflogwyr y DU a dywedodd 49% ohonynt mai Almaeneg sydd fwyaf defnyddiol.”</p> <p>Mae’r uchod yn cyd-fynd â’r ieithoedd a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg (yn y gobraith y bydd modd cynnig Almaeneg eto o 2018/19 ymlaen).</p> <p>Mae Prifysgol Abertawe yn nodi yr angen i ddatblygu lleoliadau mewn ysgolion. Ceir modiwl profiad gwaith yn y flwyddyn olaf ond mae angen ymchwilio i gyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Anogir a chefnogir myfyrwyr i wneud gwaith mentora mewn ysgolion, ac i chwilio am gyfleoedd i weithio dramor.</p> <p>Mae Prifysgol Bangor yn nodi y dylid cyd-weithio â Llwybrau at Ieithoedd a/neu Gyrfa Cymru er mwyn pwysleisio a hybu pwysigrwydd sgiliau iaith wrth edrych am waith. Dylid hefyd hybu pwysigrwydd dwyieithrwydd fel mantais wrth ddysgu mwy o ieithoedd.</p> <p>Gellid cynnal cynadleddau neu weithdai gyda phobl sy’n siarad Cymraeg ac yn gweithio naill ai dramor neu'n defnyddio eu sgiliau iaith wrth eu gwaith yng Nghymru. Gall cyn-fyfrwyr fod yn ddylanwadol yma.</p> <p>Mae Prifysgol Caerdydd yn nodi bod modd astudio modiwl Llysgennad Iaith yn y flwyddyn olaf, sydd yn cynnwys profiad gwaith mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a chyflwyno gwaith yn y Gymraeg. Mae’r flwyddyn dramor yn cynnig cyfleoedd unigryw i weithio mewn gwlad arall a datblygu’r sgiliau hynny yn ystod eu blwyddyn olaf.</p>
<p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p>	<p>O ran canran y myfyrwyr sy’n trosi i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dylid ystyried prosesau mewnol y sefydliadau o ran cofrestru awtomatig.</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei weledigaeth ar gyfer gwella a hyrwyddo Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru gyda chynllun pum mlynedd <a href="#">Dyfodol Byd-Eang</a>.</p>

Nod y cynllun yw nodi sut y bydd y Llywodraeth yn cydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol a phartneriaid allweddol er mwyn helpu dysgwyr yng Nghymru i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.

Mae'r [adroddiad dwy flynedd](#) yn nodi cynnydd cadarnhaol yn y tri cham strategol sy'n sail i'r cynllun.

Mae'r cwricwlwm ysgol newydd yn rhoi pwyslais ar amlieithrwydd a llythrennedd triphlyg (gweler tudalen 2).

Er mwyn gallu cyfrannu'n fwy strategol, dylai'r panel geisio ymaelodi â Bwrdd Ymgynghori Llwybrau at Ieithoedd a Bwrdd Llywio Dyfodol Byd-eang. Dylai'r Swyddog Pwnc hefyd greu cyswllt â'r ymgynghorwyr Ieithoedd Tramor Modern ym mhob consortiwm addysg.

Mae adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016–17 y Cyngor Prydeinig yn amlinellu'r heriau sy'n parhau ac yn gynyddol wynebu'r maes, gan gynnwys:

- gostyngiad yn y nifer sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 4 ac effaith hynny ar ddilyniant (gyda phwysau ariannol yn un o'r rhesymau na all ysgolion gyfiawnhau gynnal cyrsiau ar gyfer niferoedd bach)
- diffyg athrawon Ieithoedd Tramor Modern, yn enwedig rhai sy'n medru'r Gymraeg (yn anecdotaidd nodwyd hefyd bod nifer yn cwblhau'r hyfforddiant ac nad oes swyddi ar gael, gan fod llai o ysgolion yn cynnig mwy nag un iaith fodern).

Cynhelir yr Ysgol Haf Ieithoedd Modern yn flynyddol yn Abertawe ers 2009. Mae hwn yn gyfle i ddisgyblion Blwyddyn 12 gael blas ar fywyd prifysgol ac i wella eu sgiliau yn yr iaith darged. Mae adborth y disgyblion wedi bod yn gyson gadarnhaol ar hyd y blynyddoedd. Llwyddwyd i ddenu 35 o ddisgyblion yn 2015 (y mwyafrif posib) ond yn y ddwy flynedd ddiwethaf wynebwyd heriau o ran sicrhau niferoedd cynaliadwy.

Cynhelir yr ysgol haf 2018 ar 2 a 3 Gorffennaf ar gampws Singleton, Prifysgol Abertawe.

Dylid ystyried cynnig Ieithoedd *ab initio* ar ddechrau cyfnod y myfyriwr yn y brifysgol yn wyneb y ffaith bod cyfleoedd i astudio Ieithoedd yn mynd yn fwy prin ar lefel Safon Uwch. Dylid edrych ar y data ar gyfer TGAU mewn Ieithoedd Modern a cheisio targedu'r disgyblion hynny. Mae hefyd cyfle i ddatblygu cyfleoedd mewn Ieithoedd newydd e.e. Arabeg, Mandarin, a'u cyfuno â Ffrangeg neu Sbaeneg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft.

	<p>Dylid targedu ymdrechion hyrwyddo at ddisgyblion iau a dylid peilota cynllun mentora gyda disgyblion TGAU sydd ar fin gwneud eu arholiad llafar. Bydd hyn yn gynllun ar raddfa weddol fach y gellid ei drefnu drwy ymgynghorydd leithoedd Tramor Modern consortia ERW yn y man cyntaf.</p>
--	---

<b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>			
<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
<b>1. Lefel Darpariaeth</b>	Cynnal y ddarpariaeth bresennol	Dau sefydliad yn cynnig o leiaf 40 credyd fesul iaith (2 iaith yr un), fesul blwyddyn astudio	Dau sefydliad yn cynnig o leiaf 40 credyd fesul iaith (2 iaith yr un) fesul blwyddyn astudio
<b>2. Niferoedd Darlithwyr</b>	Cynnal y niferoedd presennol	8 aelod o staff	8 aelod o staff
<b>3. Nifer Myfyrwyr</b>	25 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3	40 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3	60 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3
<b>4. Profiad Myfyrwyr (a Darlithwyr)</b>	Trafod syniadau ar sut i sefydlu cymuned o ddarlithwyr a myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a'r ffordd orau o alluogi/cefnogi hynny.  Cyfle i fyfyrwyr fod yn arweinwyr ar ysgol haf neu weithgareddau hyrwyddo er enghraifft, gan elwa ar hyfforddiant ac ennill profiad.	Cymuned wedi ei sefydlu ac yn cynnig profiad gwerth chweil i aelodau.  Cyfle i fyfyrwyr fod yn arweinwyr ar ysgol haf neu weithgareddau hyrwyddo er enghraifft, gan elwa ar hyfforddiant ac ennill profiad.	Cymuned wedi ei sefydlu ac yn cynnig profiad gwerth chweil i aelodau.  Cyfle i fyfyrwyr fod yn arweinwyr ar ysgol haf neu weithgareddau hyrwyddo er enghraifft, gan elwa ar hyfforddiant ac ennill profiad.
<b>5. Adnoddau</b>	Adnabod y bylchau (gweler tudalen 9) a chyfoethogi deunyddiau dysgu, gan gynyws	Proses barhaus o adnabod bylchau a chreu deunyddiau/adnoddau i ateb y	Proses barhaus o adnabod bylchau a chreu deunyddiau/adnoddau i ateb y

	<p>termau allweddol ym maes astudio leithoedd Tramor Modern.</p> <p>Eu gosod ar lwyfannau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'u hyrwyddo'n briodol.</p>	galw.	galw.
<p><b>6. Dilyniant (i gyfrannu at weithredu camau strategol cynllun Dyfodol Byd-eang)</b></p> <p>Rhwydweithio</p> <p>Hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</p> <p>Codi hyder myfyrwyr yn y Gymraeg</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynychu digwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes.</p> <p>Cynnal gweithgaredd/au sy'n targedu disgyblion ysgol (ym mha bynnag Gyfnod Allweddol). Gwerthuso'n flynyddol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynychu digwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes .</p> <p>Cynnal gweithgaredd/au sy'n targedu disgyblion ysgol (ym mha bynnag Gyfnod Allweddol). Gwerthuso'n flynyddol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynychu digwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes.</p> <p>Cynnal gweithgaredd/au sy'n targedu disgyblion ysgol (ym mha bynnag Gyfnod Allweddol). Gwerthuso'n flynyddol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>

**Datblygu'r maes: targedau sefydliadol**

<b>Sefydliad</b>	<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
<b>Prifysgol Abertawe</b>	Lefel Darpariaeth	40 credyd bob blwyddyn yn Sbaeneg a Ffrangeg (80 i gyd)	O leiaf 40 credyd bob blwyddyn yn Sbaeneg a Ffrangeg	O leiaf 40 credyd bob blwyddyn yn Sbaeneg a Ffrangeg
	Niferoedd Darlithwyr	3 aelod o staff	4 aelod o staff	4 aelod o staff
	Nifer Myfyrwyr	O leiaf 3 ym mhob blwyddyn	O leiaf 5 ym mhob blwyddyn	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn
	Profiad Myfyrwyr	Sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiadau drwy gynlluniau mentora a chefnogi disgyblion ysgol.  Cyflwyno elfen Gymraeg i'r flwyddyn dramor.  Defnyddio modiwl Profiad Gwaith Aml-ddisgyblaethol Prifysgol Abertawe er mwyn sicrhau profiad gwaith pwnc-benodol ac	Parhau i sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiadau drwy gynlluniau mentora a chefnogi disgyblion ysgol.  Gwerthuso a pharhau i gyflwyno elfen Gymraeg i'r flwyddyn dramor.  Gwerthuso a pharhau i sicrhau profiad gwaith pwnc-benodol ac addas ar gyfer myfyrwyr ieithoedd.	Parhau i sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiadau drwy gynlluniau mentora a chefnogi disgyblion ysgol.  Gwerthuso a pharhau i gyflwyno elfen Gymraeg i'r flwyddyn dramor.  Gwerthuso a pharhau i sicrhau profiad gwaith pwnc-benodol ac addas ar gyfer myfyrwyr ieithoedd.



	Cwricwlwm	addas ar gyfer myfyrwyr ieithoedd.  Cynnig modiwlau cydweithredol cyfredol a/neu newydd yn sgil ymgynghori â sefydliadau eraill a dod i gytundeb ffurfiol ar y cydweithio.	Trafod a chytuno ar unrhyw ddarpariaeth gydweithredol yn flynyddol gyda'r sefydliadau eraill.	Trafod a chytuno ar unrhyw ddarpariaeth gydweithredol yn flynyddol gyda'r sefydliadau eraill.
	Cynaliadwyedd / Dilyniant	Datblygu a gweithredu cynllun i hybu cyrhaeddiad cyn-fyfyrrwyr gyda phwyslais ar gyflogadwyedd.	Gwerthuso'r cynllun a pharhau i hybu cyrhaeddiad cyn-fyfyrrwyr ac unrhyw syniadau eraill er mwyn hyrwyddo leithoedd Tramor Modern.	Gwerthuso'r cynllun a pharhau i hybu cyrhaeddiad cyn-fyfyrrwyr ac unrhyw syniadau eraill er mwyn hyrwyddo leithoedd Tramor Modern.
<b>Prifysgol Bangor</b>	Lefel Darpariaeth	40 credyd bob blwyddyn yn Ffrangeg ac Almaeneg (80 i gyd)	O leiaf 40 credyd bob blwyddyn yn Ffrangeg ac Almaeneg	O leiaf 40 credyd bob blwyddyn yn Ffrangeg ac Almaeneg
	Niferoedd Darlithwyr	3 aelod o staff	4 aelod o staff	4 aelod o staff
	Nifer Myfyrwyr	O leiaf 3 ym mhob blwyddyn	O leiaf 5 ym mhob blwyddyn	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn
	Profiad myfyrwyr	Trefnu cyfres o weithgareddau a digwyddiadau anffurfiol er mwyn cefnogi myfyrwyr Cymraeg ail-iaith a dysgwyr sydd eisiau dilyn opsiynau cyfrwng Cymraeg.	Gwerthuso'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a pharhau i gefnogi'r myfyrwyr a'u hannog i ddilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Gwerthuso'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a pharhau i gefnogi'r myfyrwyr a'u hannog i ddilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
			Gwerthuso a pharhau i	Gwerthuso a pharhau i

	<p>Cwricwlwm</p> <p>Cynaliadwyedd / Dilyniant</p>	<p>Datblygu rhestrau termau er mwyn cefnogi modiwlau penodol.</p> <p>Cyflwyno modiwl cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn apelio at fyfyrwyr ar draws Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.</p> <p>Cynyddu'r nifer o ddigwyddiadau, ac ymgysylltu fwy â disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>ddatblygu rhestrau termau.</p> <p>Gwerthuso'r modiwl a pharhau i'w gynnis neu gynnis modiwl/au newydd sy'n ateb y galw.</p> <p>Gwerthuso'r gweithgarwch a pharhau i gynnal digwyddiadau a gweithredu cynlluniau er mwyn ymgysylltu â disgyblion ysgol.</p>	<p>ddatblygu rhestrau termau.</p> <p>Gwerthuso'r modiwl a pharhau i'w gynnis neu gynnis modiwl/au newydd sy'n ateb y galw.</p> <p>Gwerthuso'r gweithgarwch a pharhau i gynnal digwyddiadau a gweithredu cynlluniau er mwyn ymgysylltu â disgyblion ysgol.</p>
<b>Prifysgol Caerdydd</b>	<p>Lefel Darpariaeth</p> <p>Niferoedd Darlithwyr</p> <p>Niferoedd Myfyrwyr</p>	<p>Cadarnhau cynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth ym mhob blwyddyn astudio a chynnal y 60 credyd sydd ar gael ym mlwyddyn 4 drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>40 credyd bob blwyddyn yn Ffrangeg a Sbaeneg.</p> <p>4 aelod o staff</p> <p>O leiaf 5 ym mhob blwyddyn.</p>	<p>40 credyd bob blwyddyn yn Ffrangeg a Sbaeneg.</p> <p>4 aelod o staff</p> <p>O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.</p>